ATODLEN 3

Rheoliadau 17, 39 a 40

Cyfrifo'r nitrogen sydd mewn tail organig

# RHAN 1

## Y tabl safonol

**Cyfanswm y nitrogen mewn tail da byw**

| *Tail ac eithrio slyri* | *Cyfanswm y nitrogen ym mhob tunnell (kg)* |
| --- | --- |
| Tail ac eithrio slyri o'r anifeiliaid a ganlyn— | |
| gwartheg: | 6 |
| moch: | 7 |
| defaid: | 7 |
| hwyaid: | 6.5 |
| ceffylau: | 7 |
| geifr: | 6 |
| Tail o ieir dodwy: | 19 |
| Tail o dyrcwn neu ieir brwylio: | 30 |

| *Slyri* | *Cyfanswm y nitrogen ym mhob metr ciwbig (kg)* |
| --- | --- |
| Gwartheg: | 2.6 |
| Moch: | 3.6 |
| Slyri gwartheg a wahanwyd (ffracsiwn hylifol)— | |
| blwch hidlo: | 1.5 |
| wal hidlo: | 2 |
| hidl fecanyddol: | 3 |
| Slyri gwartheg a wahanwyd (ffracsiwn solet): | 4 |
| Slyri moch a wahanwyd (ffracsiwn hylifol): | 3.6 |
| Slyri moch a wahanwyd (ffracsiwn solet): | 5 |
| Dŵr budr: | 0.5 |

# RHAN 2

## Samplu a dadansoddi tail organig

### Slyri a thail organig hylifol a lled-hylifol arall

**1.**—(1) O ran slyri a thail organig hylifol a lled-hylifol arall, rhaid cymryd o leiaf bum sampl, pob un ohonynt yn 2 litr.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), rhaid cymryd y pum sampl allan o lestr, ac—

(a) os yw'n rhesymol ymarferol, rhaid cymysgu'r slyri'n drwyadl cyn cymryd y samplau, a

(b) rhaid cymryd pob sampl o le gwahanol.

(3) Os defnyddir tancer sydd â falf addas arni ar gyfer taenu, caniateir i'r samplau gael eu cymryd tra'n taenu, a rhaid cymryd pob sampl fesul ysbaid yn ystod y taenu.

(4) Pa un a gymerwyd y samplau fel y disgrifir yn is-baragraff (2) neu (3), rhaid arllwys y pum sampl i mewn i gynhwysydd mwy, eu troi'n drwyadl, a rhaid cymryd sampl 2 litr allan o'r cynhwysydd hwnnw ac arllwys y sampl honno i gynhwysydd glân, llai o faint.

(5) Yna, rhaid anfon y sampl 2 litr a baratowyd yn unol ag is-baragraff (4) i'w dadansoddi.

### Tail solet

**2.**—(1) O ran tail solet, rhaid cymryd y samplau allan o domen dail.

(2) Rhaid cymryd o leiaf ddeg sampl 1kg yr un, a phob un ohonynt o fan gwahanol mewn tomen.

(3) Rhaid cymryd pob un o'r is-samplau 0.5 metr, o leiaf, o wyneb y domen.

(4) Os cesglir y samplau i gyfrifo i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r terfyn fferm gyfan ar gyfer moch a dofednod, rhaid cymryd pedair sampl i'w dadansoddi mewn blwyddyn galendr (gan gymryd un ym mhob chwarter) o domenni tail nad ydynt yn hŷn na deuddeng mis oed.

(5) Rhaid gosod yr is-samplau ar hambwrdd neu ddalen sy'n lân a sych.

(6) Rhaid i unrhyw dalpiau gael eu torri'n ddarnau mân, a rhaid cymysgu'r is-samplau yn drwyadl gyda'i gilydd.

(7) Rhaid i sampl gynrychiadol, sy'n pwyso 2kg o leiaf, gael ei hanfon wedyn i'w dadansoddi.